

# Cwblhau MFA gyda galwad ffôn awtomataidd

Cwblhewch MFA yn defnyddio'r alwad ffôn awtomataidd gan Microsoft i'r rhif ffôn a nodwyd yn flaenorol.

## Derbyn hysbysiad


Wrth geisio defnyddio Microsoft Office 365, naill ai drwy borwr gwe, ap symudol, neu gymhwysiad bwrdd gwaith, efallai y bydd gofyn i chi gwblhau MFA cyn cael mynediad at eich cyfrif.

Cyn yr ysgogiad MFA, efallai y gofynnir i chi fewngofnodi i Office365. Os felly, gwnewch hynny yn ôl yr arfer gan ddefnyddio eich cyfeiriad ebost a'ch cyfrinair Prifysgol Caerdydd.


1. Cewch hysbysiad fod angen cymeradwyaeth bellach ar yr ymgais mewngofnodi hwn drwy MFA, a bod Microsoft yn galw'r rhif ffôn a nodwyd gennych yn flaenorol.



2. Atebwch yr alwad gan Microsoft. Bydd neges wedi'i recordio yn esbonio natur yr alwad, a'r camau gweithredu sydd ar gael i chi.
3. Os na allwch ateb yr alwad neu ymateb am ryw reswm, cewch gynnig cyfle arall drwy glicio **Sign in another way**.



4. Yna cewch set o opsiynau ar sut i gwblhau MFA. Bydd yr union opsiynau'n dibynnu ar ba ddulliau MFA rydych wedi'u ffurfweddu o'r blaen. Cliciwch **Call +XX XXXXX XXXX** i roi cynnig arall ar yr alwad.



## Cymeradwyo neu wrthod

### Cymeradwyo

1. Mae cymeradwyo'r ymgais i fewngofnodi mor syml ag ateb yr alwad awtomataidd, gwranddo ar y neges a recordiwyd, a phwyso'r **allwedd #** (y cyfeirir ati fel yr allwedd "hash" yn Saesneg Prydain neu'r allwedd "punt" yn Saesneg America) ar fysellbad y ffôn pan gewch ei ysgogi.
2. Unwaith y byddwch wedi pwysu'r **allwedd #** gallwch ddiweddu'r alwad ffôn a dylai'r neges **Approve sign in request** ddiflannu o'r porwr gwe, yr ap symudol, neu'r rhaglen bwrdd gwaith oeddech yn ei defnyddio - gan roi mynediad i chi at eich cyfrif Office 365 fel y bwriadwyd.

Os ydych chi'n derbyn hysbysiad MFA i gadarnhau mewngofnodi, ond nid chi sy'n mewngofnodi, mae'n bosibl fod rhywun yn ceisio defnyddio eich cyfrif yn anghyfreithlon. Peidiwch â chymeradwyo'r mewngofnodi, bydd hyn yn sicrhau bod eich cyfrif yn dal i fod yn ddiogel.

Os ydych yn derbyn sawl hysbysiad MFA, ond nid chi sy'n ceisio mewngofnodi, gall olygu bod rhywun yn ceisio hacio'ch cyfrif. Yn y sefyllfa hon, rhowch wybod i'r [Ddesg Gwasanaeth TG](#) fydd yn ymchwilio.

### Gwrthod

Os nad chi sy'n ceisio mewngofnodi, gwrthodwch yr ymgais i fewngofnodi i gadw'ch cyfrif yn ddiogel.

1. Mae gwrthod yr ymgais i fewngofnodi yn syml: peidiwch ag ateb yr alwad awtomataidd neu ateb a therfynu'r alwad heb bwysu unrhyw allweddi.

- Bydd y neges Approve sign-in ar y porwr gwe, yr ap symudol, neu'r rhaglen bwrdd gwaith yr oeddech yn ei defnyddio yn diweddarau i nodi na chwblhawyd MFA yn llwyddiannus.




Os ydych yn derbyn sawl hysbysiad MFA, ond nid chi sy'n ceisio mewngofnodi, gall olygu bod rhywun yn ceisio hacio'ch cyfrif. Yn y sefyllfa hon, rydym yn eich cyngori i gysylltu â Desg Gwasanaeth TG y Brifysgol a fydd yn ymchwilio.

## Dewis dull arall

Os gofynnir i chi gwblhau gwiriad MFA yn defnyddio'ch dull diodyn, ond eich bod chi am gael galwad ffôn wedi'i awtomeiddio yn lle hynny i rif ffôn yr ydych wedi'i osod yn flaenorol, gallwch glicio **I can't use my Microsoft Authenticator app right now.**

Fel arall, cliciwch ar **Sign in another way**, neu cliciwch ar y saeth pwyntio a geir i'r chwith o'ch cyfeiriad ebost.



**Pwysig:** argymhellwn yn gryf eich bod yn sefydlu sawl dull o gwblhau MFA i sicrhau y gallwch barhau i gael mynediad at eich cyfrif os bydd anhawster gydag un o'r dulliau.

Cliciwch **Call +XX XXXXX XXXX** i ysgogi galwad ffon awtomataidd gan Microsoft i'r rhif a nodwyd gennych yn flaenorol.




Dangosir dau ddigid olaf pob rhif ffôn a nodwyd ar y cofnodion yn y rhestr i'ch helpu i nodi pa rif yr hoffech ei ddewis i Microsoft eich ffonio arno os ydych wedi cofnodi mwy nag un.


## Gosod fel dull diofyn

Os ydych wedi gosod dull MFA arall (fel ap Microsoft Authenticator neu gais dilysydd gwahanol) fel dull diofyn, gallwch newid hyn i wneud yr alwad ffôn yn ddiodyn. Yn yr un modd, os ydych wedi nodi mwy nag un rhif ffôn gallwch ddewis pa un rydych am ei ddefnyddio fel yr un diofyn.

1. I ddechrau'r broses, defnyddiwch borwr gwe i lywio i <https://aka.ms/mfasetup>. Cewch eich cymhell i chi fewngofnodi i Office365 gan ddefnyddio eich cyfeiriad ebost a'ch cyfrinair Prifysgol Caerdydd. Efallai y cewch eich herio i gwblhau MFA gan ddefnyddio un o'r dulliau rydych eisoes wedi'i sefydlu.
2. Ar ôl mewngofnodi'n llwyddiannus, byddwch yn cael eich cyfeirio at dudalen **My Sign-ins** lle gallwch adolygu'r dulliau MFA sydd eisoes wedi'u sefydlu. Nesaf at **Default sign-in method**: cliciwch **Change**.



3. O'r rhestr o opsiynau a gyflwynir, dewiswch y cofnod Phone - call +XX XXXXX XXXXXX sy'n cyfateb i'r rhif ffôn a nodwyd yn flaenorol yr hoffech nawr ei ddefnyddio fel yr un diodyn.



Change default method


Which method would you like to use to sign in?

Microsoft Authenticator - notification

Phone - call +44 07...

Microsoft Authenticator - notification

4. Bydd y dull mewngofnodi diodyn nawr yn dangos Phone - call +XX XXXXX XXXXXX



My Sign-ins

### Security info

These are the methods you use to sign in to your account or reset your password.

**Default sign-in method:** Phone - call +44 07... [Change](#)

+ Add method

|                         |           |                        |                        |
|-------------------------|-----------|------------------------|------------------------|
| Phone                   | +44 07... | <a href="#">Change</a> | <a href="#">Delete</a> |
| Microsoft Authenticator | Phone8    |                        | <a href="#">Delete</a> |